Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Kings Monkton

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Kings Monkton

Ysgol ddydd annibynnol yw Kings Monkton, sydd wedi'i lleoli ger canol Caerdydd. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 ac 18 oed.

Mae 101 o ddisgyblion yn adran gynradd yr ysgol, gan gynnwys 10 o blant yn y dosbarth sylfaen. Mae 189 o ddisgyblion yn adran hŷn yr ysgol, y mae 38 ohonynt yn y chweched dosbarth. At ei gilydd, mae bron i ddau o bob tri disgybl yn yr ysgol yn fechgyn, er bod y gyfran yn amrywio'n sylweddol ym mhob grŵp blwyddyn.

Daw disgyblion o ardal ddaearyddol eang sy'n cynnwys Llanilltud Fawr, Tonyrefail a Merthyr Tudful, er bod y mwyafrif ohonynt yn byw yn ardal Caerdydd.

Mae tua 40% o ddisgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae tua 14% o ddisgyblion yn siarad iaith heblaw Saesneg neu Gymraeg fel eu mamiaith gartref. Mae gan ryw 14% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, ac mae gan 37 o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r pennaeth a'r is-bennaeth hefyd wedi dod yn berchnogion yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd meithringar lle ceir perthnasoedd gwaith cryf, ac mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn dangos parch at bobl eraill.
Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant a goddefgarwch yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol amdanyn nhw eu hunain, a pharch at bobl eraill.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o gynnydd ac ymddygiad disgyblion. O ganlyniad, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n ddifyr, ac, ar y cyfan, yn gweddu'n dda i anghenion disgyblion.

Mae'r tîm lles yn darparu cymorth, cyngor ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion yn yr ysgol. Maent yn fedrus wrth gefnogi ystod eang o faterion a phryderon ar gyfer disgyblion a nodwyd. Mae'r tîm yn rhagweithiol o ran darparu hyfforddiant a gwybodaeth ychwanegol i gryfhau eu rolau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn gryfder sylweddol yn yr ysgol. Mae'n cynnwys ffocws clir ar helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion byd-eang sy'n foesegol wybodus ac yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am ystod eang o ddiwylliannau a thraddodiadau.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i nodi a chefnogi anghenion addysgol arbennig disgyblion. Caiff disgyblion sy'n fwy agored i niwed eu cynorthwyo'n arbennig o dda a gallant elwa ar ystod eang o ymyriadau gan staff hyfforddedig a all reoli eu hanghenion yn effeithiol.
Mae staff ar draws yr ysgol yn rhannu ymrwymiad cryf i ddysgu proffesiynol, ac yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i nodi a rhannu arfer dda. Er enghraifft, bydd gwaith yr adran gynradd ar siarad ar gyfer ysgrifennu bellach yn ymddangos yng nghynllun gwella'r ysgol.
Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol i'r ysgol. Mae uwch arweinwyr wedi rhoi cylch cadarn o weithgareddau hunanwerthuso a gwella ar waith sy'n defnyddio ystod gynhwysfawr o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys safbwyntiau rhieni, disgyblion a staff. Defnyddir y deilliannau o'r gweithgareddau hyn yn fuddiol i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, ac unrhyw faterion penodol mewn addysgu.

### *Meysydd i'w datblygu*

Ar yr ymweliad hwn, ni nododd y tîm unrhyw feysydd u'w datblygu, na gwneud unrhyw argymhellion. Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth glir o'i chryfderau a'i chynlluniau priodol ar gyfer gwella ymhellach.

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Parhau i ymgorffori'r trefniadau newydd i gryfhau llais y disgybl**

Ceir ystod o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar bob agwedd ar waith yr ysgol, a chymryd rhan ynddynt. Mae'r rhain yn cynnwys cyngor disgyblion, papur newydd yr ysgol a'r grŵp llysgenhadon myfyrwyr CCUHP a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae gan y cynghorau disgyblion yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd dri is-bwyllgor sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu, digwyddiadau a'r gymuned ac iechyd, bwyd a ffitrwydd. Mae aelodau'r cyngor disgyblion yn frwdfrydig iawn ynglŷn â'u gwaith, yn enwedig mewn perthynas â digwyddiadau a phenodiadau staff. Maent yn awyddus i'r cyngor allu cyfarfod yn fwy rheolaidd a chymryd mwy o gyfrifoldeb.

Mae'r grŵp llysgenhadon myfyrwyr CCUHP yn newydd, ond mae gan yr aelodau weledigaeth glir iawn am yr hyn y maent yn gobeithio'i gyflawni wedi iddynt ddechrau eu gwaith ym mis Medi 2019.

Mewn gwersi, yn aml, rhoddir cyfle i ddisgyblion benderfynu pa lefel o dasg y gallant ei chwblhau i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae hyn yn galluogi disgyblion i gael dweud eu dweud ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu, a sut.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

***Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

***Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

***Safon 6: Darparu gwybodaeth***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/08/2019